

Adroddiad Blynyddol 2008 ar Gydraddoldeb Anabledd

Adroddiad i'r Cyngor ar y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd – Rhagfyr 2008

| | |
|---|-----------|
| 1. Y Cyd-destun | 2 |
| 2. Dangos Cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a'r Cynllun Gweithredu | 3 |
| a) Eitem 1 – Mynediad i adeiladau a'r amgylchedd adeiledig: | 3 |
| b) Eitem 2 – Cyfathrebu: | 5 |
| c) Eitem 3 – Hyfforddi: | 6 |
| d) Eitem 4 – Darparu'r gwasanaeth: | 6 |
| e) Eitem 5 – Recriwtio a chadw: | 8 |
| f) Eitem 6 – Cyfranogi democrataidd: | 9 |
| 3. Hyrwyddo Cydraddoldeb Anabledd | 10 |
| • Digwyddiadau Rhwydweithio..... | 10 |
| • Y Ganolfan Cymorth i Fyfyrrwyr | 10 |
| 4. Monitro Anabledd..... | 11 |
| • Cymaryddion Demograffig..... | 11 |
| • Monitro'r Staff | 11 |
| • Monitro'r Myfyrrwyr..... | 12 |
| 5. Casgliadau a Blaenoriaethau | 14 |
| Atodiad 1 – Diweddariad 2008 o'r Cynllun Gweithredu | |

Adroddiad Blynyddol 2007 ar Gydraddoldeb Anabledd

1. Y Cyd-destun

- i) Dyma'r ail Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd i'w gyflwyno i'r Cyngor ers mabwysiadu Cynllun, a Chynllun Gweithredu, Prifysgol Aberystwyth (PA) ar Gydraddoldeb Anabledd, ym mis Rhagfyr 2006. Mae'n diweddar adroddiad y flwyddyn flaenorol ac yn asesu effaith y Polisi a'r Cynllun Gweithredu yn ystod y 12 mis blaenorol, fel rhan o ddyletswyddau'r Brifysgol o dan **Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005**.
- ii) Fel y nodwyd yn adroddiad y flwyddyn ddiwethaf, diben y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd (CCA) a'r Cynllun Gweithredu tair-blynedd oedd helpu a chydategu Polisi presennol PA ar Gyfle Cyfartal ac Amrywioldeb mewn perthynas ag anghydraddoldeb anabledd a bodloni gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (2005). Mae'r Ddeddf, sy'n ei gwneud hi'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl o ran mynediad i waith a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, yn cynnwys yn ei Dyletswydd Gyffredinol y gofyniad i gyrff cyhoeddus:
 - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau anabl a phersonau eraill;
 - Dileu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd;
 - Dileu aflonyddu ar bersonau anabl oherwydd eu hanableddau;
 - Hyrwyddo agweddau cadarnhaol at bersonau anabl;
 - Annog personau anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.
- iii) Mae'r Cod Ymarfer Statudol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hawliau Anabledd (y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol erbyn hyn) ynglŷn â'r 'Ddyletswydd i Hyrwyddo Cydraddoldeb Anabledd' yn argymhell bod yr adroddiad blynyddol:
 - Yn monitro ac yn dangos cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu'r CCA, gan gynnwys cynnydd o ran dileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a chyflawni targedau;
 - Yn dangos ffrwyth casglu gwybodaeth ar hyd y flwyddyn;
 - Yn dangos sut y bydd yr CCA yn dal i ddatblygu;
 - Yn disgrifio sut y caiff y wybodaeth a gesglir ei defnyddio wrth weithredu ymhellach;
 - Yn dangos ymrwymiad parhaus i gydraddoldeb anabledd.
- iv) Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb, gan ymgynghori ag amrywiol Swyddogion y Brifysgol a Chadeirydd/aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb. Caiff ei gyflwyno i'r Cyngor ar 16 Rhagfyr 2008 a'i ddarparu'n ddogfen gyhoeddus drwy'r wefan Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb yn <http://www.aber.ac.uk/human-resources/cy/equal-ops> neu oddi wrth yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn yr Adran Adnoddau Dynol. Mae'r adroddiad blaenorol ar Gydraddoldeb Anabledd (2007) hefyd ar gael ar y wefan. I gael yr adroddiad mewn unrhyw fformat arall, cysylltwch â'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn opp@aber.ac.uk neu (01970) 62 8598
- v) Mae'r CCA yn rhan o agenda llawn a chadarnhaol ar Gydraddoldeb ac Amrywioldeb sy'n ceisio sicrhau cydraddoldeb drwy ymagweddu'n gynhwysol. Mae'r gwaith penodol ar gydraddoldeb anabledd yn dal i fod yn flaenoriaeth i'r Brifysgol ac yn gymorth wrth ymgorffori egwyddorion ehangach cydraddoldeb.

- vi) Yn ogystal â'r Polisi ar Gydraddoldeb Anabledd, mae gan PA hefyd Bolisi Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb, Polisi Cydraddoldeb Hiliol a Chynllun Cydraddoldeb Rhywedd, ynghyd â'u priod Gynlluniau Gweithredu. Cyhoeddir datganiad ynghylch Oedran hefyd.
- vii) Bwriad PA yw datblygu un Cynllun Cydraddoldeb, a fydd yn ymgorffori cydraddoldeb anabledd, yn unol â strategaeth CCAUC. Mae proses gychwynnol yr ymgynghori newydd ddod i ben ac wrth ddatblygu'r cynllun bydd angen rhoi ystyriaeth sensitif i anghenion pobl anabl a'r ddyletswydd ynghylch cydraddoldeb.

Crynodeb: Dyma'r ail Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb Anabledd sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005. Bwriad PA yw datblygu un Cynllun Cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

2. Dangos Cynnydd yr CCA a'r Cynllun Gweithredol

- i) Diben y cynllun oedd helpu'r Brifysgol i sicrhau gwelliannau mewn chwe maes creiddiol, sef y fframwaith y datblygwyd Cynlluniau Gweithredu PA arno. Mae'r eitemau isod yn crynhoi'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn y meysydd hynny, ac fe'u dangosir hwy – ynghyd â sylwadau diweddarau – yn y Cynllun Gweithredu (Atodiad A).

ii) Meysydd creiddiol i'w gwella:

a) Eitem 1 - Tasgau 4 a-c y Cynllun Gweithredu

Mynediad i adeiladau a'r amgylchedd adeiledig: (mynediad yn adeiladau'r Brifysgol a rhyngddynt)

Dyma grynhoad yr **Adran Ystadau** o'r gwaith o dan y Ddeddf ar gyfer 2008:

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Brifysgol wedi elwa o gyllid grant allanol i wneud gwaith o dan y Ddeddf. Yn 2007 / 2008 gwariwyd yr arian hwnnw fel a ganlyn:

- Liffet newydd ar gyfer Cyfrifiadureg (Roboteg) ac uwchraddio'r lifft ar gyfer Llyfrgell Hugh Owen
- Llochesau i gadeiriau olwyn ym mhob adeilad academaidd
- Ymylon i stepiau allanol
- Uwchraddio'r arwyddion allanol
- Rampiau i gadeiriau olwyn yn adeilad y Gwyddorau Ffisegol ac adeilad Milford
- Drysau awtomeiddiedig yng Nghanolfan y Celfyddydau ac ar lefelau A, D ac E yn adeilad Hugh Owen
- Uwchraddio'r manau parcio i'r anabl
- Gwaith ymatebol arall.

Er nad yw'r llywodraeth wedi darparu cyllid penodol eleni i wneud gwaith o dan y Ddeddf, mae'r Brifysgol wedi buddsoddi £100K o'i Chronfa Strategaeth Buddsoddi Cyfalaf i ymateb yn bennaf i ofynion y Ddeddf (i geisiadau penodol). Hyd yn hyn, mae'r arian hwnnw wedi'i wario fel a ganlyn:

- Gosod drysau mynediad newydd ac awtomeiddiedig ar lefel isaf Adeilad Parry Williams

- Awtomeiddio drysau mewnol lefel D yn Adeilad Hugh Owen
- Gosod prif ddrysau mynediad awtomeiddiedig newydd yng Nghanolfan y Celfyddydau.

Mae'r gwaith arall sydd mewn llaw yn cynnwys:

- Gwella mynediad i bobl anabl i Bay Radio yn Adeilad Undeb y Myfyrwyr
- Drysau mynediad ochr awtomeiddiedig newydd i Ganolfan y Celfyddydau.

Bydd y Swyddfa Ystadau'n nodi pa waith arall sydd i'w wneud â gweddill yr arian sydd ar gael ac yn cysylltu â'r Fforwm Hygyrchedd (gweler isod) ynghylch blaenoriaethu.

Ym mis Ebrill 2008 trefnodd **Rheolwr Mynediad Anabledd a Thrwyddedu Meddalwedd yng Ngwasanaethau Gwybodaeth PA** fforwm ymgynghori ar anabledd a chynnwys ynddo gynrychiolwyr y staff a'r myfyrwyr a darparwyr gwasanaethau, e.e. yr Adran Ystadau, y Gwasanaethau Gwybodaeth, y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr, Gyrfaedd, Urdd y Myfyrwyr, yr Adran Adnoddau Dynol, Swyddogion Anabledd, yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch, ac ati. Trafodwyd materion fel y gwaith anabledd cyfredol, Gadael mewn Argyfwng, Cynlluniau Personol i Ymadael mewn Argyfwng, Liffitiau i bobl Anabl, ac ati.

Yn dilyn y broses ymgynghori honno ac ar ôl i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb gydnabod y grŵp yn ffurfiol, fe sefydlwyd Cylch Cyfrifoldebau iddo. Nod y fforwm, sydd bellach wedi'i enwi'n "**Fforwm Hygyrchedd**", yw cyfarfod dwywaith y flwyddyn i:

- Hyrwyddo cydraddoldeb anabledd yn holl strwythurau a swyddogaethau'r Brifysgol;
- Annog aelodau anabl o'r staff a myfyrwyr anabl i ymwneud â'r fforwm fel rhan o'r broses ymgynghori;
- Cynnig fforwm i ymgynghori â'r staff a'r myfyrwyr ynghylch hygyrchedd gwasanaethau a swyddogaethau yn y Brifysgol;
- Trafod rhwystrau rhag hygyrchedd, ac ymgynghori ynghylch ffyrdd o ddatrys y problemau hynny gan gydnabod y cynnydd a wneir a'r hyn sydd wedi'i gyflawni;
- Lledaenu datblygiadau a gwybodaeth, a chynngor hefyd os yw'n briodol;
- Trafod a lledaenu datblygiadau a chynlluniau at y dyfodol, e.e. gwaith ystadau, cwricwlwm cynhwysol, gwelliannau technolegol, gweithdrefnau ac arferion ac ati;
- Cynyddu ymwybyddiaeth y gwahanol bartion o'r gofynion;
- Hybu ymdeimlad o bartneriaeth rhwng y darparwyr a'r defnyddwyr drwy gynyddu ymwybyddiaeth y naill ochr a'r llall o'r posibiladau ac o'r cyfyngiadau yn narpariaeth sefydliad Addysg Uwch o ran rhwymedigaethau a chyrchnodau.

Cyfarfu'r fforwm drachefn ym mis Tachwedd 2008. Uwchraddiwyd yr aelodaeth ohono i gynnwys aelodau uwch o'r staff, e.e. Cyfarwyddwr yr Adran Ystadau, i

helpu i ddatrys problemau o ran adrodd a chyfathrebu. Bwriedir cyflwyno nodiadau o gyfarfodydd y fforwm i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb.

Y **Swyddog Anabledd** yn y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr sy'n dal i gydlynu'r Cynlluniau Personol i Adael ar Frys (PEEPs). Dywedodd fod 14 PEEP wedi'u cychwyn yn 2008/09 ac mai'r bwriad yw eu cwblhau erbyn Rhagfyr 2008. Yn dilyn adolygiad, bwriedir ailenwi swydd y Swyddog Anabledd yn Gydlynedd Cymorth i Ddysgwyr (Myfyrwyr ag Anableddau) a bod i'r swydd honno fwy o gyfrifoldeb dros integreiddio (a chadw) myfyrwyr ag anableddau a'r proses wrth iddynt symud i mewn ac allan o'u profiad o addysg uwch. Yn y dyfodol, bydd proses y PEEP's yn rhan allweddol o'r broses symud a chyfathrebu. **Rheolwr yn yr Adran Adnoddau Dynol** sy'n cydlynu PEEP's i'r staff; cafwyd adroddiad nad oedd yr un PEEP wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Crynodeb: a) Mynediad i adeiladau a'r amgylchedd adeiledig: gan nad yw'r Llywodraeth wedi darparu unrhyw gyllid penodol, mae PA yn awr yn buddsoddi £100K y flwyddyn mewn gwaith o dan y Ddeddf Anabledd. Mae Fforwm Hygyrchedd wedi'i sefydlu.

b) Eitem 2 – Tasgau 3a-h y Cynllun Gweithredu

Cyfathrebu: (sut y byddwn ni'n cyfathrebu â'n staff, â'n myfyrwyr ac â defnyddwyr eraill ein gwasanaethau, a'r rheidrwydd i ddarparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch)

Mae'r CCA a'r Cynllun Gweithredu ar gael ar wefan yr Adran Adnoddau Dynol <http://www.aber.ac.uk/human-resources/cy/equal-opps/> a gellir eu cael mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch drwy ofyn amdanynt. Mae gwefan Adnoddau Dynol wedi'i diweddarau gryn dipyn dros y ddwy flynedd diwethaf gan gynnwys ynddi bolisiau a gweithdrefnau newydd a rhai sydd wedi'u diweddarau. Mae polisiau cydraddoldeb, adroddiadau ac amrywiol gysylltau (e.e. hyfforddiant e-ddysgu ynghylch amrywioldeb) ar gael ynghylch anabledd, yn ogystal â llinynnau eraill cydraddoldeb, i'w gweld yn yr adran o'r wefan ar Gyfle Cyfartal ac Amrywioldeb. Yn 2007, ni chafwyd yr un cais am ddogfen, e.e. ffurflen gais, mewn fformat hygyrch arall.

Cyn hir, bydd y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yn symud i gartref newydd ar Gampws Penglais ac yn cynnig cyfleuster 'un-stop' i fyfyrwyr yno. Bydd y Gwasanaethau'n gallu trawsgrifio dogfennau i amrywiaeth o fformatau hygyrch, e.e. sain, Braille, fformat electronig ac ati, i'r adrannau a'r myfyrwyr. Dyma restr o'r gwasanaethau anabledd eraill a gynigir:

- rhoi offer ar fenthyg, e.e. peiriannau recordio, cymhorthion clyw;
- cymryd nodiadau;
- gweinyddu'r Lwfans Myfyriwr Anabl (LMA) er mwyn cyflogi cyfieithwyr Saesneg/B.S.L.;
- darparu cymorth dysgu ac astudio;
- cynghori ynghylch [trefniadau arholi arbennig](#);
- cysylltu â meddygon teulu neu Ymgynghorwyr;
- trefnu addasu llety;

- trefnu mynediad i Fannau Cerdyn Gwyrdd lle ceir meddalwedd a chaledwedd arbenigol i ateb anghenion unigolion;
- cynghori ynghylch technoleg ymaddasol;
- rhoi gwybod am unrhyw feddalwedd ac offer arbenigol newydd;
- darparu trawsgrifiadau Braille neu Sain, a gwasanaeth diagramau cyffyrddol.

Bydd yr Adran Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr ill dau'n defnyddio gwasanaeth yr e-bost wythnosol, a ddosberthir i fwy na 10,000 o staff a myfyrwyr, yn ddull cyfathrebu. Er nad oes unrhyw bolisi neu weithdrefn ffurfiol ynghylch cyfathrebu ar hyn o bryd, bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn cyfarfod â Swyddog y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus cyn hir i gynghori ynghylch llunio polisi (asesiad o effaith cydraddoldeb) ac ateb anghenion pobl sydd heb fynediad i e-bost neu â phroblemau eraill o ran hygyrchedd.

Dylai'r Fforwm Hygyrchedd sydd newydd ei ffurfio helpu i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd a chynnwys y staff a'r myfyrwyr mewn proses ymgynghori gynhwysol.

Crynodeb: b) Cyfathrebu: - Mae gwefan Adnoddau Dynol wedi'i helaethu a chyn hir bydd y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr yn adleoli i gyfleuster 'siop un-stop'.

c) Eitem 3 – Tasgau 7a-b y Cynllun Gweithredu

Hyfforddi: (yr angen i ddarparu hyfforddiant a gwybodaeth sydd wedi'u targedu'n briodol at ein holl staff er mwyn i ni allu sicrhau bod ein staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r CCA yn llawn)

Mae'r Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd (GDSYA) yn ystyried ffyrdd o gyflwyno ymwybyddiaeth anabledd yn fwy effeithiol.

Mae tiwtorial e-ddysgu ar amrywioldeb, a ddarperir gan yr Adran Adnoddau Dynol, yn cynnwys modiwl penodol ar anabledd. Ynndo, ceir gwybodaeth am y diffiniad o anabledd, am y Ddyletswydd ynghylch Cydraddoldeb Anabledd ac am wneud addasiadau rhesymol, ac mae'n cysylltu â Chynllun a Chynllun Gweithredu PA. Mae hyn wedi bod yn fodd i'r staff fod yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag anabledd ac yn hyrwyddo'r angen i gyflawni cydraddoldeb anabledd drwy arddel ymagwedd gynhwysol.

Crynodeb: c) Hyfforddi: - Mae e-ddysgu am amrywioldeb, sy'n cynnwys modiwl sy'n lledaenu gofynion y Ddeddf a pholisi PA, wedi'i gyflwyno i fwyafrif y staff yn ystod 2008.

d) Eitem 4 – Tasgau 6a-d y Cynllun Gweithredu

Darparu'r gwasanaeth: (gan gynnwys defnyddio technoleg yn effeithiol, a hwyluso mynediad pawb i'r gwasanaethau drwy fabwysiadu dull y 'siop un-stop')

Bwriedir agor cartref newydd y Ganolfan Cymorth i Fyfyrrwyr yn gynnar yn 2009. Am y tro cyntaf, bydd un lleoliad i'r meysydd cymorth allweddol a arferai fod ar wasgar ar draws y campysau. Mae cangen o'r Ganolfan wedi'i sefydlu mewn

cyfleusterau sydd wedi'u hailwampio'n arbennig yn Adeilad Cledwyn i gymryd Canolfan Iechyd y Myfyrwyr ac Uned Anableddau y Brifysgol.

Mae Grŵp Lles Myfyrwyr wedi'i ffurfio yn 2008. Daw â staff y Brifysgol ym meysydd Cymorth Anableddau, y Gwasanaethau Cynghori, a Chynghori Myfyrwyr ynghylch Iechyd a Lles ynghyd i hyrwyddo ac integreiddio amrywiaeth o fentrau i wella ansawdd cyffredinol profiad y myfyrwyr, a phrofiad y rhai ag anableddau yn arbennig. Daw'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr i gyfarfodydd y Fforwm Hygyrchedd sydd newydd ei ffurfio ac sy'n annog myfyrwyr i ymwneud â'r broses ymgynghori hon.

Bellach, mae Canolfan Iaith a Dysgu y Brifysgol yn rhan o'r Ganolfan Cymorth i Fyfyrwyr, ac yn 2008/09 bydd yn cyflwyno'i gweledigaeth ar gyfer ymagweddu'n ddynamig a rhagweithiol at sefyllfa ddysgu y myfyrwyr. Y "Ganolfan Ddysgu" newydd fydd yn gyfrifol am herio'r rhwystrau sy'n atal myfyrwyr rhag llwyddo, a bydd hi'n hybu ymwybyddiaeth a hyfforddiant ym maes amrywioldeb dysgu. Mae'n debyg y daw prosiect ynghylch Cwricwlwm Hygyrch o hyd i gartref parhaol yn y maes hwn.

Nod y Ganolfan Iaith a Dysgu yw galluogi myfyrwyr i gyflawni eu holl botensial mewn amrywiaeth o ffyrdd: Mae Mynediad i Gwricwlwm Dysgu Academaidd/ Gwasanaeth Dyslecsia (ALCADS) yn cynnig cyngor arbenigol ynghylch astudio a chymorth i fyfyrwyr sydd â gwahaniaethau dysgu/cyfathrebu gwaelodol, e.e. dyslecsia. Gellir darparu asesiadau cyfeirio cychwynnol ac asesiadau gwybyddol (diagnostig) llawn (gan gynnwys adroddiadau asesu gan Seicolegydd Addysg ac Athro Arbenigol).

Mae ALCADS yn cynnig gwasanaethau'r Rhwydwaith Cenedlaethol o Ganolfannau Asesu ac yn darparu Asesiadau o Anghenion Astudio fel rhan o broses PA o hwyluso mynediad i Lwfansau Myfyriwr Anabl. Mae rhaglenni datblygu strategaethau dysgu unigol ar gael i'r myfyrwyr, a gellir eu hategu ag amrywiaeth o sefyllfaoedd grŵp lle bydd y sesiynau'n cymryd gwahaniaethau yn arddulliau prosesu gwybyddol unigolion i ystyriaeth ac yn ystyried y sialensiau sy'n ymhlyg ym maes addysg uwch. Y nod yw sicrhau bod myfyrwyr yn fwy effeithiol wrth asesu'r sialensiau hynny, wrth ymdrin â hwy ac wrth gyflawni eu potensial fel unigolion.

Mae'r GDSYA hefyd yn cynnig cymorth ar ei gwefan i ddylunio dysgu cynhwysol, ac yno ceir arweiniad gan:

- [Techdis](#) sy'n helpu'r sector addysg i fod yn fwy hygyrch a chynhwysol drwy ysgogi datblygiadau arloesol a chynnig cyngor ac arweiniad arbenigol ynghylch anabledd a thechnoleg;
- [SWANDS](#) sy'n rhoi arweiniad ynghylch ymdrin â derbyn myfyrwyr, addysgu, dysgu ac asesu;
- [RNID](#) o ran y strategaethau addysgu sydd i'w defnyddio gyda myfyrwyr byddar.

Crynodeb: d) Darparu'r Gwasanaeth: - Bwriedir agor cartref newydd y Ganolfan Cymorth i Fyfyrwyr yn 2009. Mae ALCADS yn dal i gynnig gwasanaeth arbenigol i fyfyrwyr sydd â gwahaniaethau dysgu a chyfathrebu.

e) Eitem 5 – Tasgau 5a-h y Cynllun Gweithredu

Recriwtio a chadw (pobl anabl, yn fyfyrwyr ac yn aelodau o'r staff, a'u helpu i gyflawni hyd eithaf eu gallu)

Recriwtio a chadw:

(Eitem 5d yn y Cynllun Gweithredu – Adolygu'r deunydd canllaw ynghylch creu mynediad hygyrch i ddysgu ac addysgu)

Daeth ymarfer peilot o'r enw **Teachability**, a geisiai greu 'cwriclewm cynhwysol' dan arweiniad Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr, i ben ei daith ym mis Gorffennaf 2008. Cawsai ei ariannu gan y Gronfa Datblygu Dysgu ac Addysgu. Amcanion yr ymarfer oedd nodi profiadau cydnabyddedig myfyrwyr anabl a phrofiadau'r staff wrth ddyfeisio ffyrdd arloesol o gynyddu mynediad. Fe ymchwiliodd i ddefnyddio strategaethau a deunyddiau sy'n gysylltiedig â Teachability i helpu adrannau i adolygu hygyrchedd eu meini prawf i fyfyrwyr anabl. Bu dwy adran, sef Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Theatr, Ffilm a Theledu, yn ymwneud yn weithgar â'r rhaglen beilot.

Arddangoswyd gwaith yr ymarfer fel rhan o Gyfres Seminarau yr Academi Addysg Uwch o Arferion Cynhwysol, a daeth nifer helaeth (o gynrychiolwyr mewnol ac allanol) i seminar ym mis Gorffennaf 2008. Mae adnoddau o'r seminar i'w cael o: http://www.heacademy.ac.uk/events/detail/ResearchSeminar_08Jul08.

Argymhellodd y Pwyllgor Cymorth i Fyfyrwyr roi cyflwyniad i'r Cyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu, ond nid yw hynny wedi digwydd eto. Mae adroddiad terfynol yr ymgynghorydd allanol yn argymhell gweithredu rhaglen dreigl o fewn cyfnod cymharol fyr o ddim mwy na thair blynedd pryd y bydd disgwyl i bob adran academiaidd yn y Brifysgol fod wedi adolygu hygyrchedd ei chwricwla ac wedi asesu elfennau helaeth o'i harferion.

Yn sgil agor y Ganolfan Cymorth i Fyfyrwyr ar ei newydd wedd, bydd gwe-dudalennau, cyhoeddusrwydd a thafleuni newydd yn pwysleisio'r integreiddio sydd ar gymorth i fyfyrwyr yn y Brifysgol. Mae cofnodion yn y prospectws eisoes wedi'u hailwampio i bwysleisio cynnwys myfyrwyr ag anableddau, hwyluso'u proses o symud ymlaen i fyd addysg uwch, a chynnwys rôl y teuluoedd a'r asiantaethau cymorth sy'n bod yn barod. Mae rhaglen o Ddiwrnodau Agored a Digwyddiadau Datblygu Staff wedi'u trefnu i gyd-ddigwydd ag agor y Ganolfan i Fyfyrwyr, a bydd y rhaglen yn cynnwys briffio gweinyddwyr a Thiworiaid Personol ynghylch ymwybyddiaeth o anabledd.

I adlewyrchu'r ymagwedd integredig hon, mae'r hen "Bwyllgor Cymorth i Fyfyrwyr" wedi cytuno i fabwysiadu teitl newydd a dod ag isadrannau eraill o'r Brifysgol ynghyd i wella ansawdd y profiad a gaiff myfyrwyr. Ceisir sefydlu ymagwedd groesasiantaethol sy'n debyg o fod o fudd arbennig i fyfyrwyr ag anableddau.

Delir i fonitro pa mor effeithiol yw'n gwaith estyn-allan i fyfyrwyr drwy ddigwyddiadau fel y Diwrnodau Agored. Mae effeithiolrwydd y broses o sefydlu myfyrwyr newydd a digwyddiadau hybu iechyd, wedi'u hasesu ac yn 2009 rhoir amserlen fwy cynhwysfawr ar waith.

Recruiwio a chadw staff: Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn paratoi ar gyfer proses sydd ar fin digwydd, sef ei hailachredu'n adran **Tic Dwbl 'Yn Gadarn o blaid Pobl Anabl'**. Mae symbol y Tic Dwbl yn dangos ymrwymiad i arferion da wrth gyflogi pobl anabl ac yn golygu y bydd y Brifysgol, ar lefel ymarferol, yn cyfweld unrhyw ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer swydd. At hynny, mae memorandwm wedi'i lunio ar gyfer yr holl staff sydd wedi datgan bod ganddynt anabled, a'i ddiben yw adolygu unrhyw ddatblygiad a/neu addasiad rhesymol yng ngoleuni eu hanabled.

Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn dal i weinyddu'r **cynllun Mynediad i Waith** sy'n cynnig grantiau, cymorth a chyngor i bobl anabl a chyflogwyr. Gall Mynediad i Waith helpu i ddarparu:

- Cyfathrebydd, e.e. dehonglydd mewn cyfweiliadau;
- Gweithiwr cymorth, e.e. darlennydd i bobl sydd ag anawsterau gweld;
- Cymhorthion ac offer arbennig yn y gweithle;
- Grantiau teithio i'r gwaith, e.e. i helpu i dalu cost teithiau mewn tacsî;
- Addasu adeiladau, tir ac offer, e.e. helpu i dalu cost gwneud adeiladau, tir ac offer yn hygyrch.

Mae sawl aelod o'r staff wedi cael cymorth gan y cynllun yn 2008, er y gall staff gyrchu'r cymorth hwnnw'n uniongyrchol oddi wrth y Ganolfan Byd Gwaith: http://www.jobcentreplus.gov.uk/JCP/Customers/outofworkhelplookingforwork/Getting_job_ready/Programmes_to_get_you_ready/Dev_014875.xml.html.

Mae'r Adran Adnoddau Dynol wedi llunio ffurflenni Ymgeisio a Monitro newydd sy'n cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Staffio ar hyn o bryd. Nod y ffurflenni yw bod yn fwy cynhwysol a hygyrch, diweddarau'r diffiniad o anabled, helpu ymgeiswyr y Tic Dwbl, a gofyn i'r ymgeisydd nodi pa gymorth / addasiadau rhesymol sy'n ofynnol i gyflawni'r swydd. Mae'r ffurflenni hynny hefyd yn cydfynd â'r categorïau o anabled i fodloni gofynion yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Er nad oes canllawiau wedi'u llunio ynghylch gwneud addasiadau rhesymol, mae amryw byd o adnoddau ac arweiniad ar gael ar-lein.

Crynodeb: e) Cynhaliodd y Gwasanaethau Cymorth i Fyfirwyr ymarfer peilot 'cwrïcwlwm cynhwysol' (Teachability) yn 2008. Mae'r Adran Adnoddau Dynol wedi diweddarau ei ffurflenni ymgeisio a monitro.

f) Eitem 6 – tasgau 11a y Cynllun Gweithredu

Cyfranogi democrataidd: (gan gynnwys annog a helpu pobl anabl i gymryd rhan yng ngweithgareddau a phrosesau'r Brifysgol)

Y bwriad yw i'r Fforwm Hygyrchedd sydd newydd ei ffurfio helpu i hyrwyddo cydraddoldeb anabled a helpu i annog y staff a'r myfirwyr i gymryd rhan ac ymgynghori ynghylch materion a mentrau.

Nod y Brifysgol yw sicrhau ymagweddu'n gynhwysol at ymgynghori ynglŷn â'i gweithgareddau a'i phrosesau, ac mae'n gweithio, drwy gyfrwng gwybodaeth ac

amrywiaeth o sesiynau ymgynghori a hyfforddi, i hyrwyddo'r ddyletswydd gadarnhaol.

Crynodeb: f) Nod y Fforwm Hygyrchedd yw hybu rhagor o gyfranogi gan y staff a'r myfyrwyr, a chynnal amrywiaeth o weithgareddau ymgynghori a hyfforddi.

iii) **Gweithgareddau eraill:**

Mae'r broses o sgrinio i Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn dal i fynd rhagddi. Dylai adroddiad fod wedi ei gwblhau erbyn dechrau 2009.

Fel y dangosir yn Atodiad A, mae Cynllun Gweithredu'r CCA yn cynnwys diweddariad yn yr adrannau "Sylwadau / Camau Pellach" a "Cwblhawyd" i ddangos y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y cynllun.

Crynodeb: Mae arolwg wedi'i wneud o feysydd allweddol yr CCA a gweithredu'r tasgau yng Nghynllun Gweithredu'r CCA. Mae Cynllun Gweithredu'r CCA wedi'i ddiweddarau yn 2007 a 2008 i ddangos y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y cynllun.

3. Hyrwyddo Cydraddoldeb Anabledd

i) **Digwyddiadau Rhwydweithio:**

Fel y nodwyd uchod, bydd y Fforwm Hygyrchedd yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd a sicrhau ymwneud y staff / myfyrwyr â materion a mentrau anabledd.

Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb, Swyddog Amrywioldeb a Datblygu Urdd y Myfyrwyr ac aelodau eraill o'r staff yn dal i fynychu cyfarfodydd allanol Grŵp Darparu Gwasanaeth Cydradd Ceredigion. Trefnir y cyfarfodydd gan Heddlu Dyfed-Powys ac ynddynt ceir adroddiadau ar faterion anabledd i ymwelwyr, staff a myfyrwyr, yn ogystal ag ystadegau. Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb hefyd yn mynychu cyfarfodydd chwarterol Cyswllt Cymru yr Uned Herio Cydraddoldeb. Mynychir y cyfarfodydd hynny gan gynrychiolwyr holl Brifysgolion Cymru a CCAUC, ac ynddynt fe drafodir cydraddoldeb anabledd a rhennir arferion da.

Dywedodd Swyddog Amrywioldeb a Datblygu Urdd y Myfyrwyr ei bod hi'n bwriadu cynnal wythnos "Amrywioldeb yn y Brifysgol" i dynnu sylw at amrywioldeb y myfyrwyr yn y brifysgol, gan gynnwys myfyrwyr ag anableddau.

ii) **Y Ganolfan Cymorth i Fyfyrrwyr**

Fel y nodwyd uchod, bydd y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr yn agor cartref newydd eu Canolfan Cymorth i Fyfyrrwyr yn 2009 ac yn lansio gwe-dudalennau, tudalennau prosectws, cyhoeddusrwydd a thafleuni newydd i hybu integreiddio cymorth i fyfyrrwyr yn y Brifysgol. Bydd y gwasanaeth newydd yn hyrwyddo cynnwys myfyrwyr ag anableddau.

Crynodeb: Mae'r Brifysgol yn dal i hyrwyddo ac ymgorffori cydraddoldeb anabledd drwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau rhwydweithio a hyfforddi. Bydd y Ganolfan Cymorth i Fyfyrrwyr, ar ei newydd wedd yn hyrwyddo integreiddio cymorth i fyfyrrwyr.

4. Monitro Anabledd:

i) Cymaryddion Demograffig:

Fel y dywedwyd yn 2007, mae data Cyfrifiad 2001 y DU yn dangos bod bron 9.5 miliwn o bobl (18.2 y cant) yn dweud bod ganddynt salwch tymor-hir, problemau iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau beunyddiol neu ar y gwaith y gallent ei wneud. Mae 4.3 miliwn ohonynt o oedran gweithio. Cofnodir bod 20.7% o boblogaeth Ceredigion â 'salwch tymor-hir cyfyngus' a 10.1% â'u 'hiechyd cyffredinol heb fod yn dda (ffynhonnell: y Cyfrifiad:

<http://www.statistics.gov.uk/census2001/profiles/00NQ-A.asp>).

ii) Yn ôl Ystadegau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer 2006/7 (http://www.hefcw.ac.uk/Miscellaneous_Docs/Disability_Monitoring_0607.pdf), mae anableddau gan ryw 8,865 (neu 6.34%) o'r 139,776 o fyfyrwyr sy'n astudio yn Sefydliadau Addysg Uwch Cymru, mae 4,126 (2.95%) ohonynt yn cael y Lwfans Cymorth Anabledd (y DSA) ac nid yw 4,739 (3.39%) yn cael y lwfans hwnnw. Mae'r ffaith fod 8.41% o fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn dweud eu bod yn anabl yn ddangosydd cadarnhaol i wasanaethau hygyrch addysg uwch i fyfyrwyr ag anableddau. Dangosir y data am fyfyrwyr PA o eitem viii ymlaen.

iii) Mae data CCAUC yn dangos bod anabledd gan 574 (2.15%) o'r cyfanswm o 26,712 o staff yn Sefydliadau Addysg Uwch Cymru yn 2006/07. Yn PA, cofnodir bod anabledd gan 3.70% o'r staff – cyfradd dda o ran datgelu anabledd. Dangosir y data am staff PA yn yr adran isod.

iv) Monitro'r Staff:

Eleni, diweddarodd yr Adran Adnoddau Dynol y codau data ar gyfer anabledd er mwyn iddynt gyd-fynd â rhai'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) fel a ganlyn:

- 00 Heb anabledd hysbys
- 51 Anabledd dysgu penodol (megis dyslecsia neu ddyspracsia)
- 52 Anabledd dysgu cyffredinol (megis syndrom Down)
- 53 Nam gwybyddol (megis anhwylder sbectrwm awtistig neu un sy'n deillio o anaf i'r pen)
- 54 Salwch neu gyflwr iechyd hirhoedlog (megis canser, HIV, diabetes, clefyd cronig y galon, neu epilepsi)
- 55 Cyflwr iechyd meddwl (megis iselder neu sgitsoffrenia)
- 56 Nam corfforol neu broblemau symudedd (megis anhawster defnyddio'r breichiau, neu ddefnyddio cadair olwyn neu ffyn baglau)
- 57 Byddar neu â nam difrifol ar y clyw
- 58 Dall neu â nam difrifol ar y llygaid
- 96 Math arall o anabledd
- 97 Heb ateb y cwestiwn

v) Fel y nodwyd uchod, casglodd yr Adran Adnoddau Dynol ragor o ddata yn ystod 2008 i'w cyflwyno i HESA. Dangosir isod y data a gasglwyd oddi ar 2005:

Dadansoddiad o Anableddau'r Staff:

| | Gorffennaf 05 | % | Hydref 06 | % | Hydref 07 | % | Awst 08 | % |
|-------------------------|---------------|--------|--------------|--------|--------------|--------|--------------|--------|
| Benyw | 26 | 41.9% | 25 | 42.3% | 21 | 42.00% | 35 | 42.68% |
| Gwryw | 36 | 58.06% | 34 | 57.63% | 29 | 58.00% | 47 | 57.32% |
| Cyfanswm Anabl | 62 | | 59 | | 50 | | 82 | |
| Cyfanswm y Staff | 1844 | | 1791 | | 1883 | | 2217 | |
| Y % sy'n anabl | 3.36% | | 3.29% | | 2.66% | | 3.70% | |

Math o Anabledd ymhlith y Staff (Awst 08):

| Math o Anabledd | Benyw | Gwryw | |
|------------------------------|-----------|-----------|-----------|
| Dall, Nam ar y Golwg | | * | |
| Byddar, Nam ar y Clyw | 5 | 5 | |
| Nam Gwybyddol | | * | |
| Salwch Hirhoedlog | 11 | 16 | |
| Salwch Iechyd Meddwl | 2 | * | |
| Nam o ran Symudedd Corfforol | 7 | 7 | |
| Anabledd Dysgu Penodol | 7 | 6 | |
| Math Arall o Anabledd | * | 10 | |
| | 32 | 44 | 76 |

Sylwer: rhoddwyd seren i ddynodi ffigurau o dan 5 er mwyn rhwystro adnabod rhai aelodau penodol o'r staff.

- vi) Fel y dangoswyd uchod, mae 82 (47 gwryw a 35 benyw) o'r cyfanswm o 2217 o staff PA wedi'u cofnodi ar hyn o bryd yn rhai ag anabledd. Hynny yw, mae anabledau gan 3.70% o gyfanswm y staff.
- vii) Mae'n debyg bod y ffigur hwnnw'n cynrychioli canran is o staff ag anabledau na'r ffigur go iawn. Efallai bod rhai aelodau o'r staff yn credu nad ydynt yn anabl neu'n dymuno peidio â chael eu trin yn wahanol, hyd yn oed os yw'r ddeddf yn eu hamddiffyn. Gall rhai aelodau o'r staff hefyd ofni cael eu 'labelu' a dewis peidio â datgelu eu hanabledd. Gall hyn beri bod y prosesau monitro a darparu 'addasiadau rhesymol' yn anodd eu cyflawni.
- viii) **Monitro'r Myfyrwyr:**
- Fel yn achos codau monitro'r staff, mae'r categorïau o anabledd wedi'u diweddarau gan MIS eleni i gyd-fynd â rhai HESA fel a ganlyn:
- 00 Heb anabledd hysbys
 - 02 Dall/rhannol ddall
 - 03 Byddar/nam ar y clyw
 - 04 Defnyddiwr cadair olwyn/anawsterau symudedd
 - 05 Cymorth gofal personol
 - 06 Anawsterau iechyd meddwl
 - 07 Anabledd anweledig, e.e. diabetes, epilepsi, asthma
 - 08 Anabledau amryfal
 - 10 Anhwylder Sbectrwm Awtistig
 - 11 Anhawster dysgu penodol, e.e. dyslecsia
 - 96 Anabledd sydd heb ei restru uchod
 - 97 Gwrthodwyd rhoi gwybodaeth
 - 98 Ni cheisiwyd gwybodaeth
 - 99 Anhysbys
- ix) Ym mis Hydref 2008 y casglwyd y data am fyfyrwyr ac maent yn rhoi 'cipolwg' ar y semester cyfredol. Dylid nodi'r posibilrwydd bod peth data heb eu casglu/ mewnbynnu hyd yn hyn, e.e. data am fyfyrwyr yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes. Gan fod y data hefyd yn adlewyrchu cyfrif cofrestriadau myfyrwyr ac nid myfyrwyr yn unig, bydd unrhyw fyfyrwr sydd wedi'i gofrestru/wedi'i chofrestru ar fwy nag un rhaglen wedi'i gyfrif/wedi'i chyfrif ar gyfer pob rhaglen astudio unigol, e.e. yn achos Cymraeg i Oedolion.
- x) Ar hyn o bryd, mae gan PA gyfanswm o 10673 o Gofrestriadau Myfyrwyr IR, UR a DGO. Mae 898 (8.41%) ohonynt yn ymwneud â myfyrwyr ag anabledd sydd wedi'i

gofnodi, a chofnodwyd bod 307 (2.88%) yn cael lwfans anabledd. Mae 6.4% yn Israddedigion, 1.4% yn Uwchraddedigion a 0.6% yn fyfyrwyr DGO.

xi) Mae'r tabl isod yn rhoi rhagor o fanylion am y myfyrwyr hynny:

| Lwfans Anabledd | Math o Anabledd | Cyfanswm Anabledd | IR ALI | IR RhA | IR DB | IR Eraill | UR ALI | UR RhA | UR DB | UR Eraill | DGO |
|----------------------|-----------------|-------------------|------------|-----------|-----------|-----------|-----------|-----------|-----------|-----------|-----------|
| N | 02 | 27 | 18 | * | 0 | 0 | * | 0 | * | 0 | * |
| N | 03 | 29 | 15 | 0 | * | 0 | * | * | * | 0 | 5 |
| N | 04 | 47 | 32 | 0 | * | * | * | * | 0 | 0 | 7 |
| N | 05 | * | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 | 0 | | * |
| N | 06 | 23 | 14 | 0 | * | * | 0 | * | * | * | * |
| N | 07 | 100 | 43 | * | 9 | 0 | 12 | 10 | 19 | 0 | 6 |
| N | 08 | 15 | * | 0 | 0 | 0 | 5 | * | * | 0 | * |
| N | 10 | 11 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | * | 0 | 0 |
| N | 11 | 212 | 145 | * | 0 | * | 28 | 15 | * | * | 15 |
| N | 96 | 126 | 88 | * | * | * | 12 | * | * | 0 | 17 |
| Cyfanswm N | | 591 | 369 | 8 | 16 | 6 | 62 | 37 | 31 | * | 59 |
| Y | 02 | 5 | * | 0 | * | 0 | * | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y | 03 | 12 | 10 | 0 | 0 | 0 | * | 0 | * | 0 | 0 |
| Y | 04 | 11 | 9 | 0 | 0 | 0 | * | * | 0 | 0 | 0 |
| Y | 05 | * | * | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | 0 |
| Y | 06 | * | * | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | * | 0 | 0 |
| Y | 07 | 8 | 6 | 0 | 0 | 0 | * | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y | 08 | 7 | 5 | * | * | 0 | 0 | 0 | 0 | | 0 |
| Y | 10 | 9 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | * | 0 | * |
| Y | 11 | 233 | 212 | * | 0 | * | 6 | * | * | 0 | 5 |
| Y | 96 | 17 | 13 | * | 0 | * | * | 0 | 0 | 0 | * |
| Cyfanswm Y | | 307 | 269 | * | * | * | 12 | 5 | 5 | 0 | 7 |
| Prif Gyfanswm | | 898 | 638 | 12 | 18 | 9 | 74 | 42 | 36 | 2 | 66 |

Allwedd: IR = Israddedigion, UR = Uwchraddedigion, DGO = Dysgu Gydol Oes
ALI = Amser-llawn, RhA = Rhan-amser, DB = Dysgu o Bell, Eraill = Eraill

Sylwer: rhoddwyd seren i ddynodi ffigurau o dan 5 er mwyn rhwystro adnabod rhai aelodau penodol o'r myfyrwyr.

xii) Dyma'r data ar gyfer 2008/09 a 2007/08:

| | Chwefror 08 | | Hydref 08 | |
|---------------------|-------------|--------------|-----------|--------------|
| Cyfanswm y Myfyrwyr | 10,698 | % | 10673 | % |
| Myfyrwyr Anabl | 976 | 9.12% | 898 | 8.41% |
| Myfyrwyr LMA | 379 | 3.54% | 307 | 2.88% |
| Myfyrwyr heb LMA | 597 | 5.58% | 591 | 5.54% |

xiii) Mae'n fwy na thebyg bod lefel gyfredol y myfyrwyr anabl wedi'i thangynrychioli gan y teimlir efallai nad yw peth data wedi eu mewnbynnu'n electronig hyd yn hyn a bod y data wedi'u casglu ar adeg wahanol yn yr adroddiad blaenorol, h.y. Chwefror 2008. I gael cymhariaeth gywir, dylid coladu'r data eto yn Chwefror 2009.

xiv) Isod, dangosir y data am y myfyrwyr ag anableddau a dynnodd yn ôl yn 2007/08. Mae angen trafod ac astudio'r ffigurau hyn ymhellach gyda'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr.

| Myfyrwyr Anabl yn Tynnu'n ôl | Cyfanswm y Myfyrwyr | Cyfanswm y Myfyrwyr Anabl | Tynnu'n ôl ar LMA (% o'r 8860) | Tynnu'n ôl heb fod ar LMA (% o'r 8860) |
|--|---------------------|---------------------------|--------------------------------|--|
| Cyfanswm y Myfyrwyr IR/UR yn Unig | 8860 | 961 (10.8%) | 440 (5.0%) | 521 (5.9%) |
| Tynnu'n ôl yn barhaol | 437 | 62 (14.2%) | 21 (0.2%) | 41 (0.5%) |
| Tynnu'n ôl dros dro | 215 | 37 (17.2%) | 15 (0.2%) | 22 (0.2%) |
| Cyfanswm y Tynnu'n ôl yn barhaol a thros dro | 652 | 99 (15.2%) | 36 (0.4%) | 63 (0.7%) |

- xv) I grynhoi, mae anabledau gan 8.41% o fyfyrwyr a 3.70% o staff PA. Mae'r rhain yn cymharu'n gadarnhaol â ffigurau 2006/07 CCAUC, sef bod anabledau gan 6.34% o fyfyrwyr a 2.15% o staff Sefydliadau Addysg Uwch Cymru.
- xvi) Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r Adran Adnoddau Dynol wedi gweithio llawer i hyrwyddo'r Brifysgol fel cyflogwr cynhwysol (e.e. drwy'r cynlluniau Tic Dwbl a Mynediad i Waith), i lanhau'r data a gedwir ar y systemau Adnoddau Dynol ac i geisio cynyddu ei chyfradd datgelu anabled.
- xvii) Cyn hir, daw'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr â meysydd cymorth allweddol ynghyd mewn cyfleusterau a fydd wedi'u haddasu'n arbennig. Yn eu plith bydd Canolfan Iechyd y Myfyrwyr a'r Uned Anabledau. Bydd swydd newydd, Cydlynedd Cymorth Dysgwyr (Myfyrwyr ag Anabledau), yn disodli rôl flaenorol y Swyddog Anabled ac yn rhoi mwy o bwys ar integreiddio a chadw myfyrwyr ag anabledau a hwyluso'u symudiadau i mewn ac allan o'r profiad o addysg uwch. Dylai darparu'r gwasanaeth newydd hwn fod yn gymorth mawr i hyrwyddo'r ymwybyddiaeth o anabled yn y Brifysgol.

Crynodeb: Mae PA wedi monitro'r staff a'r myfyrwyr o ran anabledau. Mae'r dangosyddion cyfredol yn dangos bod ffigurau PA, sef bod anabledau gan 8.41% o'r myfyrwyr a 3.70% o'r staff, yn cymharu'n dda â ffigurau meincnodi CCAUC ynghylch staff a myfyrwyr yn Sefydliadau Addysg Uwch Cymru (6.34% yn 2006 a 2.15% yn 2007).

5. Casgliadau a Blaenoriaethau

- i) Nod PA yn ei Chynllun Strategol yw:
- cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol ynghylch cydraddoldeb ac amrywioldeb;
 - parhau i ymgorffori cydraddoldeb ac amrywioldeb ym mhob maes yn ei swyddogaethau a'i gweithgareddau a gweithredu mewn ffordd sy'n cynnig cyfle cyfartal i bawb;
 - dal i feithrin diwylliant lle caiff myfyrwyr, staff ac ymwelwyr eu trin gyda pharch ac urddas mewn amgylchedd sy'n parchu amrywiaeth o gefndiroedd a phrofiadau.
- ii) Mae PA yn dal i weithio at ei hymrwymiad i gydraddoldeb anabled a'i dyletswyddau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabled 2005. Mae'n dal i weithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid a sefydliadau allanol er mwyn cydweithio a rhannu arferion da o ran materion cydraddoldeb anabled.

- iii) Mae ymwybyddiaeth y staff o gydraddoldeb anabledd a Deddf 2005 wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf yn sgil cyflwyno i'r mwyafrif o staff PA raglen orfodol o e-ddysgu am amrywioldeb.
- iv) Mae PA yn ceisio darparu ymagwedd fwy cydlynol (rhwng gwasanaethau'r staff a'r myfyrwyr) at gydraddoldeb anabledd. Bydd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn cyfarfod â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yn y Flwyddyn Newydd i adolygu a gwella'r data anabledd a'r mecanweithiau monitro ar gyfer y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr.
- v) Bydd y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr, ar eu newydd wedd, yn dal i weithio i wella ansawdd profiad y myfyrwyr, gan roi sylw arbennig i gymorth dysgu a gwasanaethau cymorth integredig a hygyrch. Yn 2009, fe ymdrechir o'r newydd i gysylltu â'r staff yn yr adrannau academaidd lle mae'n ymddangos bod yr anghenion o ran cymorth i fyfyrwyr yn cynyddu.
- vi) Dyma'r tasgau y rhoddir blaenoriaeth iddynt dros y flwyddyn sydd i ddod:
- Lledaenu rhagor o wybodaeth am Gydraddoldeb Anabledd a Deddf 2005 drwy gynnal mentrau hyfforddi a helpu;
 - Datblygu un Cynllun Cydraddoldeb newydd PA gan gynnwys cydraddoldeb anabledd ynddo a bod yn effro i anghenion pobl anabl a'r ddyletswydd ynghylch cydraddoldeb;
 - Datblygu mecanweithiau monitro anabledd er mwyn i'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr allu gweithredu yng ngoleuni gwybodaeth, ac adolygu pa mor hygyrch yw'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr ynglŷn â'r Lwfans Myfyriwr Anabl;
 - Adolygu a diweddarau mecanweithiau PEEP yn y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr;
 - Cynnal rhagor o fentrau i hybu ymwybyddiaeth o anabledd er mwyn hyrwyddo agweddau cadarnhaol at bobl anabl a hybu cyfranogiad, e.e. digwyddiadau hyfforddi, mentora a rhwydweithio;
 - Dal i fesur y gwelliannau i'r cymorth a gaiff pobl anabl (e.e. drwy gael adborth gan y staff a'r myfyrwyr ar holiaduron);
 - Hyrwyddo'r fforwm Hygyrchedd newydd i'r staff a'r myfyrwyr er mwyn cynyddu eu cyfranogiad a chyfleu rhagor o wybodaeth am welliannau, mentrau ac ati ynghylch anabledd.

Ms. Olymbia Petrou
Yr Adran Adnoddau Dynol
Tachwedd 2008
opp@aber.ac.uk

Ymhlith y ffynonellau mewnol o wybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn mae'r Adran Adnoddau Dynol, y Gwasanaethau Gwybodaeth Reoli, y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr (sy'n cynnwys Cymorth Iaith a Dysgu a'r Swyddog Anabledd Myfyrwyr), Swyddog Hygyrchedd Anabledd y Gwasanaethau Gwybodaeth, Swyddog Amrywioldeb Urdd y Myfyrwyr, yr Adran Ystadau a GDSYA. Ymhlith y ffynonellau allanol mae Cyfrifiad Cenedlaethol 2001, HESA a CCAUC.

Os hoffech chi gael y wybodaeth hon mewn fformat arall, e.e. Braille, Trawsgrifiad Sain, ac ati, cysylltwch â Ms. Olymbia Petrou ar 01970 62 8598 neu opp@aber.ac.uk.